**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU - DYDD IAU, 19 HYDREF 2023 DYDD IAU, 19 HYDREF 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: W. HODGINS (CADEIRYDD)

Councillors D. Bevan (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
D. Davies
M. Day
E. Jones
C. Smith
L. Winnett

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth – Pobl Ifanc a Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd
Swyddog Craffu a Democrataidd

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYDYMDEIMLAD**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda theulu Sally-Ann Evans, Cyfreithiwr, a fu farw’n sydyn.<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 3** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Dean Woods. | |
| **No. 4** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 5** | **AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL**<br><br>Ystyriodd aelodau amser cyfarfodydd y dyfodol o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor yn unfrydol y byddai holl gyfarfodydd y dyfodol yn dechrau am 10.00 am. | |
| **No. 6** | **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniadau'r cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023.<br><br>CYTUNODD y Cyngor yn unfrydol i dderbyn y penderfyniadau fel cofnod gywir o'r trafodion. | |
| **No. 7** | **BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG Y PWYLLGOR CRAFFU 2023-24**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Craffu a Democrataidd i gael ei ystyried.<br><br>CYTUNWYD:<br><br>- Trefnu sesiwn wybodaeth i aelodau ar Ymddiriedolaeth Awen | |

| | | |
|---|---|---|
| | i'w chynnal yn gynnar yn y flwyddyn newydd.<br><br>- Archifdy Gwent ac Amnlosgfa Gwent – gwybodaeth strategol a pherthnasol yn cynnwys cynlluniau busnes blynyddol a gwybodaeth ariannol a fyddai'n rhoi data llinell sylfaen ar gyfer Aelodau i gael ei hanfon cyn cyflwyno'r adroddiadau i'r Pwyllgor ym mis Mai 2024.<br><br>CYTUNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a derbyn Blaenraglen Gwaith 2023/2024 y Pwyllgor Craffu Partneriaethau. | |
| No. 8 | **<u>ADRODDIAD BUDD CYHOEDDUS – CANFYDDIADAU ADOLYGIAD SICRWYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Yn dilyn trafodaeth fer pan hysbyswyd y Pwyllgor y bu Aelodau o'r Cyngor i Archifdy Gwent a hefyd Amlosgfa Gwent, CYTUNWYD bod y Pwyllgor yn cael manylion y Swyddogion Cyswllt ar gyfer y ddau sefydliad unwaith y cawsant eu cadarnhau.<br><br>CYTUNWYD YMHELLACH i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi canfyddiadau'r Adolygiad Sicrwydd a'r argymhellion fel y'u hamlinellir isod:<br><br>- Dynodi Swyddog Cyswllt o fewn y Cyngor i sefydlu cyfarfodydd cydlynu rheolaidd gydag Archifdy Gwent ac Amlosgfa Gwent erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>- Trefnu Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ar y gwaith a'r gwasanaethau a ddarperir gan Archifdy Gwent ac Amlosgfa Gwent erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>- Cynnwys pob dogfen strategol berthnasol, cynlluniau busnes blynyddol a chyfrifon Archifdy Gwent ac Amlosgfa Gwent yn y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer 2024-25, a'r Cyngor lle'n berthnasol, o leiaf ddwywaith y flwyddyn.<br><br>- Datblygu'r Cylch Gorchwyl yn 'becyn cymorth | |

| | | |
|---|---|---|
| | llywodraethiant' i'w ddefnyddio gan swyddogion ar draws y Cyngor ar gyfer rhoi sicrwydd am gwmnïau presennol ac os sefydlir unrhyw rai newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2024. | |